

Awgrymiadau gan ein fîm cyfathrebu

Gallai ennyn diddordeb papur newydd, neu raglen newyddion ar y teledu neu'r radio, yn y mater sydd gennych dan sylw, fod yn ffordd wych o roi gwybod i lawer o bobl eraill amdano fe.

Os oes gennych chi 'alwad i weithredu', h.y. rhywbeth rydych chi eisiau i bobl ei wneud, gallai stori yn y newyddion fod yn help mawr. Er enghraifft, efallai eich bod chi eisiau i bobl lofnodi eich deiseb neu ymuno â phrotest, ac os byddan nhw'n clywed amdano neu'n ei weld yn y newyddion, byddwch chi'n fwy tebygol o gael effaith.

Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu chi.

Meddyliwch am ble bydd eich stori'n mynd

Ydy'r mater hwn yn rhywbeth fydd o ddiddordeb i bobl yn eich ardal chi yn unig? Os ydyw, efallai byddwch chi'n meddwl mai'r papur lleol yw'r lle gorau ar gyfer eich stori. Os ydych chi'n meddwl y gallai fod o ddiddordeb i fwy o bobl, efallai byddwch chi am gysylltu â phapur newydd cenedlaethol neu raglen newyddion ar y teledu/radio hefyd.

Fe gewch chi hyd i'w rhif ffôn neu eu cyfeiriad e-bost ar eu gwefan, neu gallech chi geisio cysylltu â nhw trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Ymchwil

Edrychwch ar-lein i weld allwch chi ddod o hyd i storïau tebyg i'ch un chi.

Os bydd enw newyddiadurwr yn ymyl y stori neu'r storïau y dewch chi o hyd iddyn nhw, gallen nhw fod yn lle da i ddechrau. Oherwydd eu bod nhw wedi ysgrifennu am fater tebyg o'r blaen, gallai olygu eu bod nhw'n fwy tebygol o gymryd diddordeb yn eich mater chi.

Cyfleu'r wybodaeth

Cyn cysylltu â newyddiadurwr, meddyliwch am rywfaint o'r wybodaeth mae angen i chi ei throsglwyddo:

- Crynowch eich mater neu eich stori er mwyn cyfleu'r prif bwyntiau
- Oes unrhyw beth penodol yn digwydd y gallen nhw ei ddefnyddio i drafod y mater? Er enghraifft, efallai eich bod chi wedi cychwyn deiseb neu drefnu protest.
- Pwy sy'n ymwneud â'r mater yma?
- Fyddan nhw'n gallu cynnal cyfweiliad â rhywun sy'n rhan ohono? Cofiwch wirio gyda phobl eu bod nhw'n fodlon cael eu cyfweld cyn dweud 'ie' wrth y newyddiadurwr
- Os ydych chi'n siarad â rhaglen newyddion ar y teledu, fydd yna unrhyw beth diddorol iddyn nhw ei ffilmio? Meddyliwch sut gallai eich stori neu eich fater weithio ar y teledu.

Cael eich cyfweld

- Os ydych chi wedi cytuno i gael cyfweiliad, meddyliwch am y prif bwyntiau rydych chi am eu cyfleu, a cheisiwch eu dweud nhw yn y ffordd fwyaf eglur, syml a chryno posibl. Cofiwch y gallai eich cynulleidfa wybod llawer llai am y mater yma na chi.

Ar ôl cyhoeddi

- Mae popeth, fwy neu lai, ar-lein erbyn hyn, felly ar ôl i'ch stori gael ei chyhoeddi, meddyliwch allech chi ddefnyddio hynny i'w rhannu'n uniongyrchol â phobl, e.e. trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu e-bost.